**Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru** **FSAW 21/04/01**
**Cyfarfod Pwyllgor Busnes – 22 Ebrill 2021**

**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2021 dros Microsoft Teams**

**Yn bresennol:**

**Aelodau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (y Pwyllgor) a oedd yn bresennol:**

Peter Price, Cadeirydd
Dr Norma Barry
Alan Gardner
Dr Philip Hollington
David Peace
Beca Lyne-Pirkis

**Swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a oedd yn bresennol:**

Nathan Barnhouse – Cyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru
Julie Pierce – Cyfarwyddwr Bod yn Agored, Digidol, Data a Chymru
Owen Lewis – Pennaeth Polisi Rheoleiddio a’r Bartneriaeth ag Awdurdodau Lleol
Helen George – Pennaeth Gwasanaethau Busnes a Chyfathrebu Cymru
Lucy Boruk – Rheolwr Busnes

**Siaradwyr gwadd a swyddogion a oedd yn arsylwi:**

Arsylwyr:
Matthew Frankcom – Cadeirydd Bwyd Diogel, Cynaliadwy a Dilys Cymru (SSAFW)
Caroline Kitson – Uwch Reolwr Cyfathrebu

Siaradwyr Gwadd/Cyflwynwyr:
Colin Sullivan – Prif Swyddog Gweithredol a Richard Wynn Davies – Pennaeth Trawsnewid Gweithredol

## 1. Cyflwyniadau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod.

1.2 Nodwyd ymddiheuriadau gan Ronnie Alexander.

## 2. Cofnodion y cyfarfod agored diwethaf (Papur FSA 21/03/01)

2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2021 yn gofnod cywir.

2.2 Cadarnhaodd yr Ysgrifenyddiaeth nad oedd unrhyw gamau gweithredu yn weddill. **Cam gweithredu: Cofnodion i'w cyfieithu a'u cyhoeddi ar y wefan.**

**3. Datgan buddiannau**

3.1 Ers y cyfarfod diwethaf ar 4 Chwefror 2021 ni fu unrhyw newidiadau i ddatganiadau presennol na datganiadau newydd o fuddiannau.

**4. Diweddariad llafar gan y Cadeirydd**

4.1 Rhannodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar gan nad oedd y Bwrdd wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 4 Chwefror 2021.

4.2 Nododd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn bresennol yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) ar 24 Chwefror 2021. Ymhlith yr eitemau a drafodwyd oedd yr Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelwch Gwybodaeth, yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 20-21, y Datganiad Llywodraethu Drafft, yr Adroddiad ar Gynllunio Archwilio, yr adroddiad ar Gynnydd Sicrwydd Archwilio, a chynlluniau Sicrwydd Archwilio ar gyfer 21-22.

4.3 Dywedodd y Cadeirydd fod Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA) yn bwriadu cychwyn cyfres o sesiynau hanner diwrnod ar 18 Mawrth 2021 ar gyfer aelodau newydd ARAC yn y Llywodraeth. Nododd yr aelodau hefyd fod yr ASB yn cynnal ei Chynhadledd rithiol gyntaf ar Ddadansoddi Rheoleiddio Bwyd Rhyngwladol.

4.4 Nododd y Cadeirydd fod proses recriwtio'r Pwyllgor wedi dod i ben a bod 4 ymgeisydd llwyddiannus wedi'u penodi. Mae sesiwn gynefino wedi'i threfnu gyda staff yr ASB yng Nghymru ar 8 Ebrill 2021 a'r gobaith yw y bydd yr Aelodau newydd yn ymuno â'u cyfarfod cyntaf ar 22 Ebrill 2021, lle bydd pawb yn cyflwyno eu hunain i'w gilydd.

**5. Diweddariad gan y Cyfarwyddwr (Papur FSA 21/03/03)**

5.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr ei adroddiad ysgrifenedig a oedd yn crynhoi prif weithgareddau'r ASB yng Nghymru ers y cyfarfod diwethaf ar 4 Chwefror 2021.

5.2 Nodwyd bod yr ASB yng Nghymru wedi hwyluso cyfres o weminarau ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru fel rhan o'r ymarfer ymgynghori ar y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, y Canllawiau Ymarfer a'r Fframwaith Cymwyseddau. Roedd nifer o swyddogion awdurdodau lleol yn bresennol yn y digwyddiadau hyn (97 yn bresennol a 126 o gwestiynau wedi'u holi). Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan Gadeirydd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru (DPPW) a chan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) mewn perthynas â'r dull proffesiynol a bortreadir gan dîm yr ASB yng Nghymru sy'n arwain ar yr ymgynghoriad.

5.3 Nododd yr aelodau fod yr ASB yng Nghymru hefyd wedi rhoi cyflwyniad ar yr ymgynghoriad yn un o gyfarfodydd y DPPW ar 22 Chwefror a chynnal gweminar ar wahân ar gyfer Bwrdd Gweithredol DPPW ar 2 Mawrth. Cafodd y ddau beth eu croesawu'n gadarnhaol.

5.4 Nodwyd bod Adroddiad yr ASB ar yr Adolygiad o Weithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol a Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru wedi'i gyhoeddi. https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/fhrs-a-report-for-the-senedd-cymru-feb February-2021-accessible.pdf

5.5 Hysbysodd y Cyfarwyddwr yr aelodau fod y gwaith recriwtio ar gyfer yr ASB yng Nghymru ar y gweill a'i fod yn digwydd yn unol â'r cynllun. **Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth i rannu siart sefydliadol newydd**

5.6 Fe wnaeth y Pwyllgor longyfarch yr ASB yng Nghymru ar ei Gwobr Cyflogwr Teg Aur yn ddiweddar gan Chwarae Teg am ei gwaith ar faterion amrywiaeth a chydraddoldeb.

## 6. Adroddiad Blynyddol gan Gadeirydd y Cyngor Gwyddoniaeth (Papur FSA 21/03/04)

6.1 Croesawodd yr aelodau y papur trosolwg hwn a chymeradwyo gwaith y Cyngor Gwyddoniaeth a'i amrywiol weithgorau.

6.2 Cododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:

- bod yr adroddiad yn ymdrin ag ystod eang o ffrydiau gwaith ac yn defnyddio dull amlddisgyblaethol i wneud argymhellion, gan ategu gwaith y Cyngor Gwyddoniaeth;
- ei fod yn croesawu ystod o arbenigedd ar y gweithgorau ac yn nodi bod llawer o fanylder y gwaith a gynhelir a'r canlyniadau a gyflawnir wedi'u nodi mewn papurau gweithgor ar wahân i'r Bwrdd;
- amlygwyd pwysigrwydd data a nodwyd cyfle i ddefnyddio hwn mewn pwrpas cyd-destunol ehangach;
- ar fodelu data yn y dyfodol, a'i ddefnydd mewn perthynas â'r sgorio rhagfynegol ar gyfer y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB), nododd y Pwyllgor y gofyniad, yn ôl y gyfraith, i safle gael ei arolygu cyn dyfarnu sgôr o dan y CSHB statudol yng Nghymru;
- roedd y Pwyllgor yn hapus bod unrhyw agweddau datganoledig, lle bo hynny'n bosibl, yn rhai y gellir eu hadnabod ar wahân mewn gwybodaeth a ddarperir gan y Cyngor a'i weithgorau; a
- byddai'n croesawu eglurder pellach mewn perthynas â sganio'r gorwel ar garbon sero-net ac unrhyw oblygiadau y gallai hyn eu cael ar fusnesau bach.

6.3 Croesawodd y Pwyllgor y trosolwg o waith y Cyngor Gwyddoniaeth gan gydnabod ei fod yn sicrhau bod yr ASB yn gallu nodi, dod o hyd i ac integreiddio'r dystiolaeth a'r arbenigedd gwyddonol gorau.

## 7. Diweddariad ar Raglen Bontio'r Undeb Ewropeaidd (UE) (Papur FSA 21/03/05)

7.1 Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad diweddaru ar Raglen Bontio'r UE, gan gydnabod bod y dirwedd yn newid yn barhaus a'r heriau niferus y mae hyn yn eu cyflwyno.

7.2 Rhannodd y Pwyllgor bryderon am y bygythiadau sy'n cael eu gwneud i staff cynghorau dosbarth sy'n gweithio o fewn arolygfeydd ffin Gogledd Iwerddon. Roedd yr aelodau'n cydnabod y goblygiadau cynyddol ar adnoddau mewn mannau rheoli ar y ffin ac, yn y cyd-destun hwn, nododd y trafodaethau y mae'r ASB yng Nghymru yn eu cael gyda Llywodraeth Cymru.

7.3 Ar ddatblygu tri fframwaith y DU – a) Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid; b) Safonau Cyfansoddiadol Bwyd a Labelu; a c) Cyfansoddiad a Labelu Honiadau Maeth ac Iechyd – nodwyd bod cymeradwyaeth dros dro mewn Cydbwyllgor Gweinidogol (Pwyllgor Gweinidogol y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig o'r enw Cyd-bwyllgor y Gweinidogion neu'r JMC) yn 2020 a bod craffu seneddol wedi digwydd ym mhob un o'r pedair deddfwrfa. Nodwyd yr her o gael cytundeb terfynol i'r holl fframweithiau cyn yr etholiadau yng Nghymru ac yn yr Alban.

7.4 Fe wnaeth y Pwyllgor gydnabod y cyfleoedd a gyflwynir gan drafodaethau parhaus ar gytundebau masnach, ond croesawodd safbwynt parhaus yr ASB na ddylai cytundebau masnach beryglu diogelwch a safonau bwyd. Nododd nad yr ASB yw'r adran sy'n arwain ar fargeinion masnach, ond bod gan ddiwydiannau bwyd Cymru ddiddordeb mewn unrhyw gyfleoedd newydd i fasnachu â gwledydd eraill.

7.5 At ei gilydd, croesawodd y Pwyllgor y dull sy'n sicrhau nad yw diogelwch bwyd yn cael ei danseilio trwy unrhyw drafodaethau masnach. Roedd yn fodlon bod yr ASB yn cymryd rhan mewn sgyrsiau perthnasol â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru o ran cynllunio ar gyfer unrhyw seilwaith arfaethedig. Trafodwyd pa mor bwysig yw sicrwydd a gwrando ar ddefnyddwyr hefyd. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn fodlon â nodau'r Fframweithiau.

## 8. Rheoli Risg Strategol (Papur FSA 21/03/06)

8.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad rheoli risg strategol a chytunodd fod y gwaith yn cyd-fynd ag amcanion yr ASB. Yn sail i'r papur roedd cefnogi cofrestrau risg corfforaethol ac adrannol yr ASB sy'n manylu ar risgiau unigol a chamau lliniaru. Sicrhawyd y Pwyllgor bod cofrestr gorfforaethol yr ASB a ategir gan gofrestrau adrannol yn manylu ar y camau ar risgiau enw da a'r angen i gynnal hygrededd yr ASB.

8.2 Holodd y Pwyllgor am raglen archwilio awdurdodau lleol yr ASB a chafodd wybod bod ailddechrau archwiliadau diogelwch bwyd yng Nghymru yn cael ei drafod fel rhan o drafodaethau ehangach ar waith adfer yn sgil COVID-19 a bod trafodaethau'n cael eu cynnal gydag Archwilio Cymru a rhanddeiliaid eraill. Nodwyd bod arolygiadau o dan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ac uniondeb y CSHB hefyd yn rhan o'r trafodaethau ehangach hyn.

## 9. Cyflwyniad: Trosolwg o'r Rhaglen Trawsnewid Gweithredol a Datblygu Model Cyflenwi yn y Dyfodol

9.1 Darparwyd trosolwg o'r Rhaglen Trawsnewid Gweithredol ar gyfer moderneiddio'r ffordd y mae'r ASB yn darparu rheolaethau swyddogol yn uniongyrchol yn y sectorau cig, llaeth a gwin. Nododd yr aelodau y bydd cyfeiriad y rhaglen yn seiliedig ar egwyddorion a fydd yn parhau i godi safonau ar draws y diwydiant. Yn ganolog i'r rhaglen hon mae cenhadaeth yr ASB i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, ac i sicrhau ymddiriedaeth a diogelwch defnyddwyr.

9.2 Nododd y Pwyllgor amlinelliad model cyflenwi newydd sy'n seiliedig ar risg ac sy'n cael ei lywio gan wybodaeth (*intelligence*) a fyddai'n helpu'r ASB i dargedu ei adnoddau'n fwy at feysydd o ddiffyg cydymffurfio. Croesawodd yr aelodau'r trosolwg gan ofyn bod y Pwyllgor yn parhau i gael ei ddiweddaru am y rhaglen flaenoriaeth allweddol hon ar gyfer yr ASB.

## 10. Unrhyw Fater Arall

10.1 Dywedodd y Cadeirydd y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 22 Ebrill 2021 gan obeithio y byddai sesiwn friffio ar raglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnes (ABC) yr ASB yn rhan o'r cyfarfod. **Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth i lunio agenda.**

10.2 Fe wnaeth y Cadeirydd atgoffa'r Pwyllgor y byddai penodiadau Ronnie Alexander, Norma Barry a David Peace yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021 gan fod pob aelod wedi gwasanaethu'r tymor hiraf a ganiateir. Diolchodd y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr i'r aelodau am y cyfraniad yr oeddent wedi'i wneud i'r Pwyllgor dros y blynyddoedd. Nodwyd bod y Gweinidog, Eluned Morgan AS, hefyd wedi ysgrifennu i estyn ei diolch.